
# DATA CYDRADDOLDEB MYFYRWYR

Cyfnod Adrodd

1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2020



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# RHAGARWEINIAD







**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar statws rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor a gofrestrwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/2020. Bwriad yr adroddiad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gweithio i gynnal cymuned gynhwysol yn y brifysgol i gael gwell dealltwriaeth o'r prif heriau cydraddoldeb sy'n wynebu'r myfyrwyr ac i gyfeirio ymdrechion i'w goresgyn at y dyfodol.**

Mae'r adroddiad yn cymharu ffigurau Prifysgol Bangor â'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael (2018/19), er mwyn ystyried amrywiaeth a chynhwysiant myfyrwyr y Brifysgol gan ystyried y tueddiadau newydd a'r rhai sy'n codi. Mae ffigyrau cyflawn Prifysgol Bangor am y cyfnod adrodd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn.

**Paratowyd gan Helen Munro, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr, Mawrth 2020.**



# RHYWEDD



Dychwelir data ynghylch rhyw myfyrwyr i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a'r dewisiadau posibl yw 'Gwryw', 'Benyw' ac 'Arall'. Oherwydd y nifer fechan, ac yn unol â pholisi HESA, mae'r myfyrwyr a nododd eu rhyw fel 'Arall' wedi eu heithrio o ddadansoddiadau rhyw yn yr adroddiad hwn.

Merched yw mwyafrif y myfyrwyr sy'n astudio ym Mangor o hyd gyda 60.9% o'r holl fyfyrwyr yn nodi eu bod yn fenywod a 39.4% yn nodi eu bod yn wrywod. Mae hynny ychydig yn uwch na ffigwr y Deyrnas Unedig sef 57.2% a ffigwr Cymru sef 56.7%.

Mae amrywiannau rhyw ar lefel pwnc/ysgol, sy'n cyfateb â ffigyrau cenedlaethol. Fesul ysgol ym Mhrifysgol Bangor, mae dynion yn cael eu gor-gynrychioli (o gymharu â ffigyrau cyffredinol Bangor) yn yr Ysgol Busnes, yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, yr Ysgol Gwyddorau Naturiol, yr Ysgol Gwyddorau Eigion, yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig. Yn yr ysgol olaf mae 84.6% o'i myfyrwyr yn wrywaidd.

Mae myfyrwyr benywaidd yn parhau i fod yn y mwyafrif yn yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth, Ysgol y Gymraeg, yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, yr Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Gwyddorau Iechyd. Yn yr ysgol olaf mae 87.4% o'i myfyrwyr yn fenywaidd.

Mae gwahaniaethau rhwng y rhywiau hefyd mewn canlyniadau, gyda mwy o fyfyrwyr benywaidd yn graddio gyda gradd dosbarth cyntaf.

| Rhywedd | Dosbarth Cyntaf | 2:1 | 2:2 | Trydydd Dosbarth | Diddosbarth | Cyfanswm y Myfyrwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | 63.1% | 56.3% | 54.5% | 50.0% | 40.0% | 58.8% |
| Gwrwaidd | 36.9% | 43.7% | 45.5% | 50.0% | 60.0% | 41.2% |

Fodd bynnag, roedd cyfraddau uwch o ddynion na merched mewn gwaith llawn-amser proffesiynol chwe mis ar ôl cymhwyso (Advance HE, Cydraddoldeb ac Addysg Uwch, Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr 2018).

# Pob Myfyriwr yn ôl Rhyw a Lefel Astudio

Mae cyfran y myfyrwyr benywaidd ar draws pob lefel astudio yn parhau'n debyg i ganran gyffredinol Bangor o 60.9%. Dim ond ar y lefel Ôl-radd Ymchwil y gwelir canran is o fyfyrwyr benywaidd, ac mae hyn yn cymharu'n unol â ffigyrau'r Deyrnas Unedig.

| Lefel Astudio | Rhywedd | Bangor | Pob myfyriwr y DU |
|---|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Merched | 60.6% | 57.2% |
| | Dynion | 39.4% | 42.8% |
| Israddedigion | Merched | 61.3% | 60% |
| | Dynion | 38.7% | 40% |
| Ôl-raddedigion | Merched | 58.6% | 61% |
| | Dynion | 41.4% | 39% |
| Ôl-raddedigion Ymchwil | Merched | 54.9% | 48.9% |
| | Dynion | 45.1% | 51.1% |

# Pob Myfyriwr yn ôl Rhyw a Dull Astudio

Mae canran ychydig yn uwch o ferched yn astudio'n rhan-amser ar bob lefel astudio, na rhaniad rhywedd Bangor. Ar hyn o bryd mae merched yn 66.0% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser.

# Pob Myfyriwr yn ôl Rhyw a Maes Pwnc

O'r 14 ysgol ym Mangor, dim ond 3 sy'n dangos cydbwysedd rhwng y rhywiau sydd o fewn 5% o ffigurau cyffredinol y Brifysgol, sef 60.6% yn fenywod a 39.4% yn ddynion. Mae hyn yn cynnwys yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Ysgol y Gwyddorau Meddygol ac Ysgol y Gyfraith. Fodd bynnag, mae'r ysgolion sy'n weddill yn gweld anghydbwysedd rhwng y rhywiau ac mae'r rhain yn cydberthyn â ffigurau cenedlaethol ar lefel pwnc.

**Cydbwysedd Rhwng y Rhywiau sy'n ffafrio Myfyrwyr Benywaidd**

| Ysgol | % Merched Bangor | % Merched Y DU |
|---|---|---|
| **Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth** | **65.8%** | **71.4%** |
| **Addysg a Datblygiad Dynol** | **73.0%** | **77.8%** |
| **Cymraeg** | **66.9%** | |
| **Gwyddorau Iechyd** | **87.4%** | **79.2%** |
| **Seicoleg** | **75.5%** | |
| **Y Gyfraith** | **60.2%** | **64.4%** |

**Cydbwysedd Rhwng y Rhywiau sy'n Ffafrio Myfyrwyr Gwrywaidd**

| Ysgol | % y Dynion ym Mangor | % Dynion Y DU |
|---|---|---|
| **Ysgol Busnes Bangor** | **58.2%** | **49.3%** |
| **Cerddoriaeth** | **45.5%** | |
| **Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig** | **84.6%** | **81.6%** |
| **Gwyddorau'r Eigion** | **48.6%** | |
| **Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer** | **60.0%** | |
| **Gwyddorau Naturiol** | **51.6%** | |

Di-GPT
GPT

Mae ysgolion sy'n dysgu pynciau SET (Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg) ym Mangor yn tueddu i weld anghydbwysedd rhyw o blaid dynion gyda'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig sydd â'r ganran uchaf o fyfyrwyr gwrywaidd sef 84.6%. Mae ysgolion sy'n dysgu pynciau nad ydynt yn bynciau SET megis Ysgol y Gyfraith a'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol yn denu mwy o fyfyrwyr benywaidd ac mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau'r Deyrnas Unedig. Pan fo ffigyrau cenedlaethol ar gael, dangosir canran y Deyrnas Unedig yn y golofn ar y dde.

Yr ysgol sydd â'r anghydbwysedd uchaf rhwng y rhywiau o blaid myfyrwyr benywaidd yw Gwyddorau Iechyd, sydd ag 87.4% o fyfyrwyr benywaidd. Mae'r ysgol hon yn cynnig cyrsiau mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwelir bod y swyddi hyn yn dal i gael eu cysylltu'n draddodiadol â merched. Dim ond 10% o holl nyrsys cofrestredig y Deyrnas Unedig yn 2017 oedd yn wrywod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2017) ac mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol o'r farn bod nyrsio yn un o'r swyddi sydd wedi eu rhannu fwyaf ar sail rhyw yn y Deyrnas Unedig (Coleg Nyrsio Brenhinol, 2018).

Maes arall lle mae'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau'n amlwg iawn yw'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, gyda 73%, bron i 3 o bob 4 myfyriwr, yn nodi eu bod yn fenywod. Mae hynny ychydig yn is na ffigwr y Deyrnas Unedig ar gyfer myfyrwyr Addysg sef 77.8% ond mae'n unol â'r tueddiadau cenedlaethol yn y sector addysg. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn dweud bod gan Gymru dair gwaith cymaint o athrawon benywaidd ag o athrawon gwrywaidd.

Tra bydd cymdeithas yn parhau i ystyried addysgu a nyrsio fel swyddi i ferched, disgwylir i'r duedd hon barhau.



# ANABLEDD

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'myfyrwyr anabl' i gyfeirio at fyfyrwyr y nodir eu bod yn anabl ar eu cofnod yn y brifysgol. Caiff anabledd ei ddatgan ar sail hunanasesiad y myfyriwr ei hun. Defnyddir y term 'myfyriwr nad yw'n anabl' i gyfeirio at rai nad ydynt yn anabl, neu nad yw'r sefydliad yn gwybod beth yw statws eu hanabledd.

Mae nifer y myfyrwyr sydd wedi datgelu anabledd yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n raddol ymhlith myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan godi o 5.4% yn 2003/04 i 13.9% yn 2018/19. Mae cyfraddau'n parhau i fod yn uwch ymhlith myfyrwyr israddedig o gymharu ag ôl-raddedigion ac ymhlith myfyrwyr y Deyrnas Unedig o'u cymharu â myfyrwyr rhyngwladol. (Advance HE, Cydraddoldeb ac Addysg Uwch, Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr 2020).



## Pob Myfyriwr yn ôl Anabledd

Roedd 23.8% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor a gofrestrodd yn ystod cyfnod 2019/20, wedi eu cofnodi gydag anabledd o gymharu ag 19.9% yn 2018/19 a 17.6% yn 2017/2018. Mae hyn yn llawer uwch na ffigwr y Deyrnas Unedig, sef 13.9% a ffigwr Cymru, sef 14.9%.

## Pob Myfyriwr yn ôl Dull Astudio ac Anabledd

Roedd cyfran gyffredinol y myfyrwyr rhan-amser ym Mhrifysgol Bangor a ddatgelodd eu bod yn anabl yn is na chyfran y myfyrwyr llawn-amser. Mae ffigyrau cenedlaethol yn cyflwyno darlun gwahanol, gyda Phrifysgol Bangor yn gweld nifer uwch o fyfyrwyr llawn-amser yn datgelu eu bod yn anabl. Mae'r ffigyrau hyn yn wahanol eto wrth edrych ar israddedigion yn unig.

| | **Bangor** | **Pob myfyriwr y Deyrnas Unedig (2018/19)** |
|---|---|---|
| Pob Myfyriwr Llawn-Amser - Anabl | 24.6% | 13.9% |
| Pob Myfyriwr Rhan-Amser - Anabl | 16.3% | 14% |

| | **Bangor** | **Pob myfyriwr y Deyrnas Unedig (2018/19)** |
|---|---|---|
| Pob Myfyriwr Israddedig Llawn-Amser - Anabl | 25.8% | 14.7% |
| Pob Myfyriwr Israddedig Rhan-Amser - Anabl | 33.3% | 15.1% |

Mae ffigyrau uwch i'w gweld o hyd ym Mhrifysgol Bangor o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, ond mae'r grŵp israddedig yn dangos canran uwch ymhlith myfyrwyr rhan-amser o gymharu â myfyrwyr llawn-amser, fel y gwelir yn ffigyrau'r Deyrnas Unedig sydd efallai'n awgrymu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol, bod rhai myfyrwyr anabl yn dewis astudio'n rhan-amser yn hytrach nag astudio'n llawn-amser.

## Pob Myfyriwr yn ôl Lefel Astudio ac Anabledd

Mae mwy o fyfyrwyr israddedig yn nodi eu bod yn anabl na myfyrwyr ôl-radd. Gwelir hyn hefyd yn ffigyrau'r Deyrnas Unedig.

| | **Bangor** | **Y DU (2018/19)** |
|---|---|---|
| Pob Myfyriwr Israddedig Llawn-Amser - Anabl | 25.8% | 14.7% |
| Pob Myfyriwr Ôl-radd Llawn-Amser - Anabl | 19.5% | 9.3% |

## Pob Myfyriwr yn ôl Maes Pwnc ac Anabledd

O blith 14 ysgol Bangor, mae gan 2 ganran gyfartalog o fyfyrwyr yn datgelu eu bod yn anabl, sydd dros 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Prifysgol Bangor, sef 23.8%. Mae hyn yn cynnwys yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, a'r Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau. Mae gan dair ysgol ganran gyfartalog o fyfyrwyr sydd dros 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd, sef yr Ysgol Addysg, yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, ac Ysgol y Gymraeg. Gan mai dim ond 66.5 yw cyfanswm nifer y myfyrwyr yn Ysgol y Gymraeg, efallai na fydd hwn yn sampl ddigon da i ddarparu nifer cywir er mwyn cymharu.

| Ysgol | % Anabl |
|---|---|
| Ysgol Busnes | 19.7% |
| Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | 29% |
| Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 26.3% |
| Y Gyfraith | 20.6% |
| Cerddoriaeth a'r Cyfryngau | 31.5% |
| Cymraeg | 13.5% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 24.5% |
| Gwyddorau Naturiol | 26.6% |
| Gwyddorau'r Eigion | 27.1% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 18.5% |
| Gwyddorau Iechyd | 20.6% |
| Gwyddorau Meddygol | 24.4% |
| Seicoleg | 25.5% |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 18.1% |

Mae niferoedd tebyg o fyfyrwyr pynciau SET a myfyrwyr nad ydynt yn astudio pynciau SET wedi datgelu eu bod yn anabl, sy'n unol â ffigyrau'r Deyrnas Unedig. Mae ffigyrau'r Deyrnas Unedig hefyd yn dangos bod cyfraddau datgelu anabledd ar eu huchaf ymhlith myfyrwyr sy'n astudio'r celfyddydau creadigol a dylunio (21.5%) ac astudiaethau hanesyddol ac athronyddol (20.2%). Mewn cyferbyniad, dim ond 7.7% o'r rhai sy'n astudio astudiaethau busnes a gweinyddol ac 9.2% o'r rhai sy'n astudio peirianneg a thechnoleg a ddatgelodd eu bod yn anabl sy'n cymharu'n debyg i ffigyrau Bangor.

## Pob Myfyriwr yn ôl Canlyniad ac Anabledd

O'r 1947 o fyfyrwyr a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2019/20, roedd 477 (24.5%) wedi datgan anabledd.

| Dosbarthiadau Gradd | Myfyrwyr Anabl | Myfyrwyr Nad Ydynt yn Anabl |
|---|---|---|
| Cyntaf | 22.2% | 77.8% |
| 2:1 | 26.4% | 73.6% |
| 2:2 | 25.1% | 74.9% |
| Trydydd Dosbarth | 20.0% | 80.0% |
| Diddosbarth | 60.0% | 40.0% |

Yn gyffredinol, graddiodd 88.9% o fyfyrwyr nad oeddent yn anabl yn 2019/2020 gyda gradd dosbarth gyntaf/2:1 o'i gymharu â 82.8% o fyfyrwyr anabl. Mae hyn yn cynrychioli bwlch dyfarnu gradd o 6.1 pwynt canran. Mae hynny'n llai na ffigur y Deyrnas Unedig sef 1.5 pwynt canran.

Yn ôl Advance HE, mae mwy o fyfyrwyr anabl a gymhwysodd yn 2018/19 yn ddi-waith o'i gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.



# ETHNIGRWYDD

Mae'r Brifysgol yn casglu ac yn cyflwyno data am ethnigrwydd pob myfyriwr adeg cofrestru. Mae'n cyflwyno data ar gyfer y categorïau ethnig, Gwyn, Asiaidd, Du a Chymysg/Arall a chategorïau lle gwrthodwyd rhoi gwybodaeth neu nad yw'n hysbys. I gymharu, dim ond data ar gyfer myfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a gyflwynir gan HESA oherwydd ei bod yn orfodol casglu data am ethnigrwydd y myfyrwyr hynny sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dewis datgan. Mae grwpiau nad ydynt yn wyn hefyd yn cael eu crynhoi mewn un grŵp, sef Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Lle bo'n briodol, mae data ar gyfer myfyrwyr Bangor wedi'i rannu'n grwpiau sy'n cynnwys 'pob myfyriwr' a 'pob myfyriwr sy'n hanu o’r DU', er mwyn cymharu data'n gywir â ffigyrau HESA.



## Pob Myfyriwr sy’n hanu o’r DU yn ôl Ethnigrwydd

Mae ffigyrau'r Deyrnas Unedig yn dangos bod 98.5% o'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o’r Deyrnas Unedig wedi datgan gwybodaeth am ethnigrwydd. O'r rhai yr ydym yn gwybod beth yw eu hethnigrwydd, ystyriai 24.3% ohonynt eu hunain yn BAME. Roedd cynrychiolaeth BAME yn amrywio'n sylweddol yn ôl gwlad, 27.7% yn Lloegr, 12.1% yng Nghymru a 3.3% yng Ngogledd Iwerddon. Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng rhanbarthau ar draws y DU. Ym Mangor roedd 7.3% o'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o’r Deyrnas Unedig yn ystyried eu hunain yn BAME.

## Pob Myfyriwr yn ôl Ethnigrwydd

Nododd 22.2% o holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor eu bod yn ystyried eu hunain yn BAME.

## Pob Myfyriwr sy'n Hanu o’r DU yn ôl Dull Astudio ac Ethnigrwydd

Ym Mhrifysgol Bangor, mae cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o’r Deyrnas Unedig sy'n ystyried eu hunain yn BAME ar draws cyrsiau rhan-amser yn is na'r gyfran ar gyrsiau llawn-amser. Mae hyn yn debyg i ffigyrau'r Deyrnas Unedig.

| | **Bangor** | **Y DU** |
|---|---|---|
| Myfyrwyr Llawn-Amser sy'n Hanu o’r DU - BAME | 7.6% | 26.4% |
| Myfyrwyr Rhan-Amser sy'n Hanu o’r DU - BAME | 4.9% | 17.6% |

## Pob Myfyriwr yn ôl Dull Astudio ac Ethnigrwydd

Mae cyfran yr holl fyfyrwyr sy'n ystyried eu hunain yn BAME ar draws cyrsiau rhan-amser yn llawer is na chyfran y myfyrwyr llawn-amser. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd nad yw myfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig yn dewis astudio’n rhan-amser oherwydd goblygiadau ariannol astudio dros gyfnod hirach yn ogystal â gofynion fisa.

| | **Bangor** |
|---|---|
| Yr Holl Fyfyrwyr Llawn-Amser - BAME | 23.8% |
| Yr Holl Fyfyrwyr Rhan-Amser - BAME | 7.1% |

## Pob Myfyriwr sy'n Hanu o’r DU yn ôl Lefel Astudio ac Ethnigrwydd

I'r gwrthwyneb, wrth edrych ar ffigyrau ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor, mae cynrychiolaeth BAME ymhlith yr holl israddedigion yn 16.9% ac yn 48.7% ymhlith myfyrwyr ôl-radd, sy'n dangos bod niferoedd llawer uwch na'r cyfartaledd o fyfyrwyr yn ystyried eu hunain yn BAME ar lefel ôl-radd. Mae Prifysgol Bangor yn recriwtio llawer o fyfyrwyr o ardaloedd yn y Dwyrain Canol a De Ddwyrain Asia, a allai gyfrif am y gwahaniaeth hwn.

## Pob Myfyriwr sy’n Hanu o’r DU yn ôl Maes Pwnc ac Ethnigrwydd

O'r 14 ysgol ym Mangor, dim ond un sydd â chanran gyfartalog o fyfyrwyr sy'n hanu o’r Deyrnas Unedig sy'n ystyried eu hunain yn BAME, sy’n llai na 5 pwynt canran cyfartaledd Prifysgol Bangor, sef 7.3%. Dyma Ysgol y Gymraeg lle mae’r holl fyfyrwyr sy'n hanu o'r Deyrnas Unedig yn wyn. Ar hyn o bryd mae gan Ysgol y Gymraeg 62.5 o fyfyrwyr sy’n hanu o’r Deyrnas Unedig nad yw, o bosib, yn sampl ddigon mawr i gael cynrychiolaeth gywir ohonynt.

| Classification | All Students – Ethnicity BAME | All Students – Ethnicity White |
|---|---|---|
| First | 36% | 44.1% |
| 2:1 | 40.3% | 41.6% |
| 2:2 | 22% | 12.5 |
| Third | 1.7% | 1.3% |

| Ysgol | % Cymunedau Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
|---|---|
| Ysgol Busnes | 14% |
| Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | 3.7% |
| Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 7.6% |
| Y Gyfraith | 17.5% |
| Cerddoriaeth a'r Cyfryngau | 6.0% |
| Cymraeg | 0% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 13.6% |
| Gwyddorau Naturiol | 6.4% |
| Gwyddorau'r Eigion | 5.8% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 2.9% |
| Gwyddorau Iechyd | 7.2% |
| Gwyddorau Meddygol | 15.6% |
| Seicoleg | 9% |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 4.3% |

## Pob Myfyriwr yn ôl Maes Pwnc ac Ethnigrwydd

Allan o 14 ysgol y Brifysgol, mae gan 3 ysgol ganran o fyfyrwyr BAME sy'n uwch na'r cyfartaledd o 22.2%, sef Ysgol y Gyfraith, yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg a'r Ysgol Busnes, lle mae 78.5% o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn BAME.

Unwaith eto, mae Prifysgol Bangor yn recriwtio nifer sylweddol o fyfyrwyr o Tsieina ac mae ganddi gampws yn Ninas Changsha yn nhalaith Hunan yn Tsieina. Cynigir cyrsiau mewn Cyfrifeg a Chyllid, Bancio a Chyllid a Pheirianneg Electronig i fyfyrwyr, ac fel rheol, maent yn cwblhau eu hail a'u trydedd flwyddyn o astudio ym Mangor.

| Ysgol | % Cymunedau Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
|---|---|
| Ysgol Busnes | 78.5% |
| Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | 9% |
| Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 15.6% |
| Y Gyfraith | 37.6% |
| Cerddoriaeth a'r Cyfryngau | 22.2% |
| Cymraeg | 3% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 33.7% |
| Gwyddorau Naturiol | 10.5% |
| Gwyddorau'r Eigion | 11.6% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 8.4% |
| Gwyddorau Iechyd | 11.1% |
| Gwyddorau Meddygol | 25% |
| Seicoleg | 20% |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 10.5% |

# Pob Myfyriwr sy’n Hanu o’r DU yn ôl Canlyniad ac Ethnigrwydd

O'r 1544 o fyfyrwyr sy'n hanu o’r Deyrnas Unedig a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2019/20, roedd 98.7% wedi datgan eu hethnigrwydd. Cofnododd 7.4% o gyfanswm y graddedigion eu hethnigrwydd fel BAME. Mae hyn i lawr o 23.3% yn 2018/2019.

O'r 1947 o fyfyrwyr a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2019/20, gwnaeth 96.5% ddatgan eu hethnigrwydd. Cofnododd 20.2% o gyfanswm y graddedigion eu hethnigrwydd fel BAME.

| Dosbarthiad | Pob Myfyriwr - Ethnigrwydd BAME | Pob Myfyriwr - Ethnigrwydd Gwyn |
|---|---|---|
| Cyntaf | 36.9% | 43.8% |
| 2:1 | 40.1% | 41.7% |
| 2:2 | 20.9% | 12.5% |
| Trydydd Dosbarth | 2.1% | 1.3% |

Yn gyffredinol, graddiodd 85.5% o'r myfyrwyr gwyn yn 2019/2020 gyda gradd dosbarth cyntaf/2:1 o'i gymharu â 76.9% o'r myfyrwyr BAME. Mae hyn yn cynrychioli bwlch dyfarnu gradd o 8.6 pwynt canran, sy’n is na’r 10.3 yn 2018/19. Nid oes unrhyw ffigyrau ar gael i'r grŵp hwn o fyfyrwyr i gymharu yn eu herbyn.



# CRYNODEB


Bydd Data Myfyrwyr yn parhau i gael eu cofnodi'n flynyddol ac wrth i'r data sydd ar gael inni newid, felly hefyd y bydd y ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r data hwn i lywio ein cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth at y dyfodol ac ateb yr heriau.

Wrth i'r Brifysgol edrych ar ddata cydraddoldeb myfyrwyr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd modd cymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac efallai y bydd tueddiadau'n dod i'r amlwg. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd yn ddefnyddiol hefyd edrych ar oedran yr holl fyfyrwyr, ac o ble maent yn hanu, er mwyn ystyried amrywiaeth y myfyrwyr a sicrhau archwiliad trylwyr o groestoriad materion cydraddoldeb. Er enghraifft, edrych ar ethnigrwydd myfyrwyr a'u rhyw i bennu pa ffactorau eraill a all greu heriau o ran cydraddoldeb.



***CYFEIRIADAU***

*(Adroddiad Ystadegol, Cydraddoldeb ac Addysg Uwch y Myfyrwyr 2020 Advance HE 2020)*
*Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth www.nmc.org.uk*
*Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru www.ewc.wales*



# CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH MYFYRWYR

**Gwasanaethau Myfyrwyr, Neuadd Rathbone,**
**Ffordd Coleg, Bangor**
**cynhwysol@bangor.ac.uk**

Duet Postscriptum stocksy.com/2415035